PAM MAE'N RHAID I GRISTNOGION FOD YN WAHANOL

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i weld a gwerthfawrogi'r angen i ni Gristnogion fod yn wahanol i bobl y byd o'n cwmpas, er fod yn rhaid inni fyw yn y byd a phregethu i bobl fydol. Wrth ddilyn cyngor Gair Duw a'r esiampl a roddodd Iesu a'r Cristnogion cynnar, gallwn lwyddo i wneud hynny

MAE'R MWYAFRIF O BOBL YN DERBYN SAFONAU MOESOL EU CYFOESWYR (2 fun.)

'Dyw'r mwyafrif mawr o bobl heddiw ddim eisiau bod yn wahanol

Mae cyfoedion yn rhoi pwysau arnyn' nhw ac maen' nhw'n barod iawn i ddilyn y dyrfa

Mae hyn yn wir am oedolion ac ieuenctid fel ei gilydd

O ddysgu'r gwirionedd, 'rydym ni, Gristnogion, yn ymwrthod â'n ffyrdd bydol (1Pedr 4:2, 3)

Mae hyn yn chwithig i'n cyfeillion bydol gynt, ac efallai y byddan' nhw'n ein dirmygu ni (1Pedr 4:4)

MAE GWEISION JEHOFAH ERIOED WEDI BOD YN WAHANOL (15 mun.)

Daethpwyd â chenedl Israel i Wlad yr Addewid a'i neilltuo gan Dduw (Deut 7:6)

Gorchmynnwyd yr Israeliaid i gadw ar wahan i'r cenhedloedd paganaidd (Ex 23:32, 33)

'Roedd ganddyn' nhw ruban glas arbennig uwch godre eu gwisg, oedd yn eu gosod nhw ar wahan ac wrth eu hatgoffa yn eu hamddiffyn nhw (Num 15:38-41; *it*-1 655)

'Roedd Cristnogion y ganrif gyntaf yn dilyn dysgeidiaethau Crist, gan gynnwys 'peidio â pherthyn i'r byd' (In 15:18-20)

'Roedden' nhw mor amlwg wahanol i'r byd o'u cwmpas nes galw Cristnogaeth "Y Ffordd" (Act 9:2; 19:9, 23)

'Roedden' nhw'n adnabyddus iawn am fod yn wahanol (*tp* 123-4)

Mae gwir Gristnogion heddiw yn wahanol

Mae enw Duw wedi ei roi arnyn' nhw, ac maen' nhw'n ffyddlon ymdrechu i ufuddhau i'w orchmynion (Salm 83:18; Eseia 43:10, 12)

Maen' nhw'n ceisio cadw heb eu difwyno gan y byd (Iago 1:27)

Mae'r gwahaniaeth hwn yn amlwg i bawb sy'n edrych (In 13:35; *g*94 12/22 13)

Efallai y bydd eraill yn eu herlid nhw oherwydd hyn (2Tim 3:12)

Fel Moses, maen' nhw'n dewis goddef adfyd gyda phobl Dduw yn hytrach na chael mwynhad pechod dros dro (Heb 11:24, 25)

Mae Cristnogion yn ddeiliaid Teyrnas Dduw

"Alltudion a dieithriaid" ydyn' nhw yn y byd hwn (1Pedr 2:11)

Maen' nhw'n edrych ymlaen at ymgartrefu'n barhaol ym myd newydd cyfiawn Duw (2Pedr 3:13)

A ninnau'n ddisgyblion Iesu Grist, dylem ymdrechu meddwl a gweithredu yn unol â safonau Cristnogol

Mae hyn yn ein neilltuo ni oddi wrth y byd, gan bwysleisio ein bod ni'n wahanol

'Dyw hyn ddim yn golygu ein bod ni'n ein hynysu'n hunain a byw fel meudwyaid (In 17:15, 16)

Yn hytrach, a ninnau'n ddisgyblion Iesu, cawn ein 'hanfon i'r byd' i hysbysu eraill am y gwirionedd (In 17:18)

Mae gofyn i Gristnogion fod yn "oleuni'r byd" (Mth 5:14-16; Phil 2:15)

Un ffactor sy'n ein gwneud ni'n wahanol ydi'n gwaith pregethu a gwneud disgyblion (Mth 24:14; 28:19, 20)

YMDOPI'N LLWYDDIANNUS Â PHWYSAU GAN GYFOEDION (4 mun.)

Mae eisiau bod yn boblogaidd a chael ein derbyn gan eraill yn ddymuniad cryf iawn

Ildiodd hyd yn oed yr apostol Pedr ar un achlysur (Gal 2:11-14)

Sut medrwn ni ymdopi'n llwyddiannus â phwysau gan gyfoedion?

Dod i 'nabod Jehofah ac edrych arno fel cyfaill

Datblygu cariad cryf ato ef a'i gyngor (Salm 119:9-11, 105)

Cymdeithasu â'r rhai sydd â'r un safon uchel (Diar 13:20; 2Tim 2:22)

Peidio ag ofni dyn; gweithredu'n ddewr yn ôl ein hargyhoeddiadau (Diar 29:25)

Mae'n rhaid i ieuenctid Cristnogol yn arbennig ddilyn y cyfarwyddyd hwn

[Eglurwch sut i ymdopi'n llwyddiannus â phwysau cyfoedion yn yr ysgol (*yp* 73-80)]

ENGHREIFFTIAU PENODOL O SUT MAE CRISTNOGION YN WAHANOL (20 mun.)

Rhaid i Gristnogion yn gyntaf geisio'r Deyrnas, nid buddiannau materol

Mae mwyafrif y ddynoliaeth wedi ymgolli ym materion bywyd, gan ganoli eu sylw ar gael cymaint ag sy'n bosib' yn faterol gan y byd

Mae Cristnogion yn gweld ffolineb ceisio "ymwneud â'r byd" a rhoi pwyslais ar bethau sydd yn sicr o fynd heibio (1Cor 7:29-31; 1In 2:15-17)

'Rydym ni â'n llygaid ar y Deyrnas, nid ar ennill bywoliaeth, neu casglu cyfoeth mewn byd sy'n darfod (Mth 6:31, 32)

Dylai pob un ohonom ofyn: 'Beth rydw i'n ei ddilyn yn yrfa? 'Fedra' i ddilyn nod iachusol gwasanaeth llawn amser?'

Nodwch esiampl yr apostol Paul (Rhuf 11:13, 14)

'Dyw Cristnogion ddim yn "caru pleser" (2Tim 3:4)

Rhaid bod yn ddethol ynglŷn â hamdden ac adloniant

Dilyn cyfarwyddyd gofnodir yn 1 Timotheus 4:7, 8 ac yn 1 Corinthiaid 10:31

Rhaid i bobl ifanc arfer gofal ynglŷn â gweithgareddau allgyrsiol (*sj* 22-5)

Cyfyngwch nifer y rhai sy'n dod ynghyd i'ch achlysuron cymdeithasol

Achlysuron cymdeithasol mawr yn anodd eu goruchwylio a gallant effeithio er drwg, yn ysbrydol ac yn gorfforol, ar y rhai sy'n bresennol (*km* 9/95 2; *om* 136)

Mae Cristnogion yn cadw safon foesol iachusol (Phil 4:8)

Safon y byd yn gwaethygu, mynd o ddrwg i waeth

Mae'r Ysgrythurau yn ei gwneud yn eglur beth ydi safiad Cristnogion (1Cor 6:9, 10; Heb 13:4)

Rhaid rheoli chwantau'r cnawd ac osgoi adloniant neu ddeunydd darllen sy'n cyffroi'r nwydau

Mae hyn yn cynnwys dawnsio anweddus a cherddoriaeth nwydwyllt, sydd 'nawr mor amlwg yn y byd

Cymdeithaswch dim ond â'r rhai sy'n parchu deddfau cyfiawn Jehofah (1Cor 15:33)

Mae Cristnogion yn wahanol o ran gwisg a thrwsiad

Mae'r ffordd 'rydym ni'n gwisgo yn ein cysylltu ni â grŵp neu ddosbarth arbennig

'Roedd Elias yn cael ei 'nabod gan ddilledyn amlwg arbennig proffwyd (2Bren 1:2-8)

Mae'n gwisg yn rhoi argraff dda neu argraff ddrwg (*yp* 90)

Gellir ein cysylltu ni â'r hyn sy'n amharchus

'Ydym ni'n gyflym i efelychu ffasiynau powld y byd?

Os ydi rhieni'n sylwi fod eu plant yn cael eu dylanwadu gan ysbryd y byd o ran gwisg a thrwsiad, fe ddylen' nhw ymdrechu i gyrraedd eu calonnau a'u helpu nhw i weld angen addasu

Dylent osod esiampl dda eu hunain (1Pedr 3:3, 4)

Bydd bod yn wylaidd yn ein hamddiffyn ni rhag y byd drygionus sy'n elyniaethus i Dduw

BENDITHION SY'N DILYN CADW SAFON GRISTNOGOL (4 mun.)

Daw llawer o fendithion o gadw'r safon Gristnogol a bod yn wahanol i'r byd

'Rydym ni'n medru gwasanaethu ein Duw â chydwybod lân a byddwn yn gymeradwy ganddo

Cawn ein hamddiffyn rhag Satan, tywysog y byd hwn, a'i gynllwynion (In 14:30; Eff 6:10-13; 1In 5:19)

Cawn ein galluogi i aros ar y ffordd gul sy'n arwain i fywyd tragwyddol (Mth 7:13, 14)

Os ydym eisiau ffafr a bendith Duw, rhaid inni fod yn wahanol!

Peidiwch byth ag anghofio, "mae'r byd a'i drachwant yn mynd heibio, ond y mae'r hwn sy'n gwneud ewyllys Duw yn aros am byth" (1In 2:17)

Boed i'r hapusrwydd hwnnw ddod i'n rhan ni!

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arno)